**BWRDD CYD LYWODRAETHU**

**1 Mawrth 2023 @ 10:00**
**AR-LEIN**

**PRESENNOL:**

Helen Cargill, TIAA [HCa]
Helen Corcoran, Prif Uwcharolygydd Gwasanaethau Corfforaethol [HCo]
Sarah Davies, Arweinydd Llywodraethu a Moeseg y CA [SD]
Guto Edwards, Pennaeth Cyllid [GE]
Stephen Hughes, Prif Weithredwr [PSG] SCCH
Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid SCHTh **(Cadeirydd)**
Sian Jones, Cydlynydd Parhad Risg a Busnes [SWJ]
Phil Kenyon, Cyfreithiwr yr Heddlu [PK]
Stephanie Maddix, CP CCPSH [SM] (cofnodion)
Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau [CCA]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Helen Williams, Cyfrifydd Rheolaeth Ariannol [HW]

**YMDDIHEURIADAU:**

Rachel Barber, Cadeirydd, Cydbwyllgor Archwilio[RB]
James Sutton, Cadeirydd y Bwrdd Sicrwydd [JS]
Anne Matthews, Swyddog Cyllid a Chyllid [AM]

**333. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 9 TACHWEDD 2022**

Gwnaeth y bwrdd adolygu a chymeradwyo cywirdeb y cofnodion blaenorol.

**334. COFNOD GWEITHREDIADAU**

Gweler y cofnod gweithrediadau ar wahân am ddiweddariadau.

**335. ANNOG ADOLYGIAD O'R LLAWLYFR LLYWODRAETHU**

Hysbysodd y Cadeirydd y Bwrdd fod gofyniad blynyddol adolygu'r Llawlyfr Llywodraethu, sy'n rheolau busnes cyffredinol ar gyfer SCHTh a'r Heddlu. Mae gennym brif gwnstabl newydd ers y cadarnhawyd y fersiynau presennol. Efallai fod ganddi hithau farn. Gwahoddodd y Cadeirydd

aelodau roi unrhyw adborth neu ddiweddariadau iddi erbyn 31 Mawrth 2023. Mae'r dogfennau presennol yn aros hyd nes bod gofyn diweddaru.

**GWEITHREDIAD: Aelodau i roi adborth a diweddariadau ar ddogfennau'r Llawlyfr Llywodraethu i'r Cadeirydd erbyn 31 Mawrth 2023.**

**336. ANNOG ADOLYGIAD O'R STRWYTHUR LLYWODRAETHU**

Cylchredwyd y cylch gorchwyl drafft ar gyfer Adolygiad Llywodraethu Heddlu Gogledd Cymru 2023 gyda phecyn yr agenda. Rhoddodd y PSG yr arsylwadau canlynol:

- Dylai'r cefndir adlewyrchu ein bod hefyd â Chomisiynydd Heddlu a Throsedd newydd a Chynllun Heddlu a Throsedd newydd ers yr adolygiad eang diwethaf ar drefniadau llywodraethu'r Heddlu nol yn 2019.
- Byddai'n esgeulus peidio cyfeirio'n benodol at COVID o fewn cefndir y cylch gorchwyl, ac effaith hynny.
- Ychwanegwch y canlynol o dan restr y Rhanddeiliaid: SCHTH; Y CHTh a'r CA.

**GWEITHREDIAD: SWJ i ddiweddaru cylch gorchwyl Adolygiad Llywodraethu HGC er mwyn adlewyrchu'r arsylwadau a wnaed uchod.**

Cadarnhawyd y byddem, fel rhan o'r adolygiad, yn edrych ar enghreifftiau sut mae strwythurau llywodraethu heddluoedd eraill yn cael eu sefydlu, yn enwedig y rhai hynny a raddiwyd fel rhagorol yn arolwg PEEL diweddar HMICFRS o dan Gwestiwn 12. Cadarnhaodd SWJ ei bod eisoes wedi cyfarfod â Heddlu Glannau Humber a'i bod yn y broses o sefydlu cyfarfodydd gyda heddluoedd eraill er mwyn trafod eu strwythurau llywodraethu a phigo rhai o'u harfer da. Mae SWP hefyd yn mapio rhai o'n cyfarfodydd yng nghyfnod cyntaf yr adolygiad. Nodir yr hyn sy'n cael ei ddyblygu a lle mae gwahaniaeth i'r cylch gorchwyl.

**337. YSTYRIED DIWEDDARIADAU AR GYFER DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23**

Eglurodd y Cadeirydd fod SCHTh a'r Heddlu yn cyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol ar y cyd â'r datganiad cyfrifon sy'n nodi pa lywodraethu sydd mewn lle a'i effeithiolrwydd. Dilynir canllawiau CIPFA er mwyn sicrhau y cwmpesir yr holl feysydd angenrheidiol. Mae'r Bwrdd hwn yn goruchwylio'r cynllun gweithredu sydd gyda'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Paratoir Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi'i ddiweddaru er mwyn cyd-fynd â chyfrifon drafft 2022/23. Bydd yn cynnwys diweddariadau o ran y gweithrediadau a nodir yng nghynllun gweithredu 2021/22.

**GWEITHREDIAD: Aelodau i roi unrhyw adborth neu ddiweddariadau a awgrymir ar y datganiad llywodraethu blynyddol i'r Cadeirydd, CCA neu GE.**

**338. MONITRO CYNLLUN GWEITHREDU'R DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL**

Mae Gweithgor, a reolir gan Swyddog Staff y Gwasanaethau Busnes, wedi'i sefydlu er mwyn rhoi trosolwg o Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a monitro cynnydd y gweithrediadau.

Mae'r tri gweithrediad a amlygir yn y cynllun gweithredu yn faterion byw i gyd ac maent ar gynnydd.

- Llywodraethu: Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd – mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud er mwyn symud ymlaen gyda'r gweithrediad hwn, drwy adolygu ein llywodraethu ar raddfa eang ac ymateb i adroddiad arolwg PEEL HMICFRS.
- Eglurder y Datganiad Cyfrifon – rydym yn parhau gwella ar eglurder y datganiad cyfrifon a natur ddarllenadwy'r datganiad llywodraethu blynyddol. Hoffem gysylltu â'r heddluoedd hynny a nodwyd fel rhagorol gan adroddiad PEEL HMICFRS, ynghyd â heddluoedd eraill Cymru, er mwyn tynnu ar arfer da.
- Arolygon HMICFRS – mae'r gweithrediad hwn yn symud ymlaen ac mae'n gweithio drwy fforymau llywodraethu'r heddlu. Bydd diweddariad yn bwydo i'r Cydbwyllgor Archwilio yn hwyrach y mis hwn hefyd.

Hysbysir am ddiweddariadau gan Weithgor Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol i gyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn y dyfodol.

## 339. HUNANASESIAD O RAN Y COD RHEOLI ARIANNOL

Cyflwynwyd y Cod Rheoli Ariannol ym mis Hydref 2019. Mae gofyniad proffesiynol blynyddol dangos cydymffurfiaeth o ran y cod Rheoli Ariannol. Diben y cod ydy sicrhau bod heddluoedd ac awdurdodau lleol yn ariannol gynaliadwy a bod cynlluniau ar gyfer ariannu yn y dyfodol. Mae chwe egwyddor allweddol sydd wedi'u dadansoddi i set o 17 safon a 68 chwestiwn o dan y rhai hynny. Eglurodd GE y cwblhawyd asesiad manwl nôl yn 2021. Mae matrics taenlen y tu ôl iddo er mwyn ymateb i'r cwestiynau gyda thystiolaeth. Y cynllun ariannol tymor canolig ydy ein prif dystiolaeth er mwyn dangos ein cydymffurfiaeth o ran y cwestiynau.

Yn dilyn yr hunanasesiad, rydym yn ystyried ein bod yn cydymffurfio. Bydd y meysydd a amlygir ar gyfer datblygiadau parhaus yn cael eu tracio i'r flwyddyn nesaf a byddai'n cael ei gynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol.

Rhoddodd y CCA yr arsylwadau canlynol:

- Ystyried ymgorffori graddio C12 adroddiad PEEL HMICFRS i adran 2.1 fel un o'r elfennau ategol, gan gyfeirio at eu datganiad ynghylch gwerth am arian.
- Ystyried ymgorffori'r ymateb i argymhellion TIAA lle mae angen gweithrediad rheoli penodol fel enghraifft o dystiolaeth yn adran 2.14.

**GWEITHREDIAD: GE i ddiweddaru'r ymatebion i'r cwestiynau yn y cod Rheolaeth Ariannol er mwyn adlewyrchu'r arsylwadau a wnaed uchod.**

Ymatebodd GE i'r adborth a'r ymholiadau a dderbyniwyd gan RB tu allan i'r cyfarfod:

- Mae'r brif dystiolaeth yn y matrics taenlen manwl sydd tu ôl i'r brif ddogfen a rannwyd yn y pecyn agenda.
- Gan ei fod yn hunanasesiad, nid oes adolygiad annibynnol. Fodd bynnag, mae wedi'i brofi mewn ffordd y gellir ei adolygu gan Archwilio Cymru, felly mae'r dystiolaeth a roddir yn gadarn. Mae gorgyffwrdd mawr gyda'r hyn a roddir i Archwilio Cymru ar gyfer yr asesiad gwerth am arian.

## 340. LLYWODRAETHU CYNLLUN GWEITHREDU'R CA

Mae gwerthusiad y CA sy'n digwydd yn flynyddol. Mae cynllun gweithredu wedi'i ddatblygu ar y cyd â SCHTh, yr Heddlu a Chadeirydd y CA er mwyn adolygu effeithiolrwydd y cydbwyllgor. Byddai

Swyddog Staff y Gwasanaethau Busnes yn goruchwylio ymarferoldeb symud ymlaen gyda'r gweithrediadau a nodwyd. Byddai cyfarfodydd y Bwrdd Cyd Lywodraethu yn y dyfodol yn derbyn diweddariad / adroddiad prif bwyntiau fel y fforwm goruchwylio. Adroddir ar nifer o'r gweithrediadau yn y sesiwn gaeedig yng nghyfarfod y CA yn ddiweddarach y mis hwn.

**341. a) ADOLYGIAD O ARGYMHELLION YR ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL**
**b) ADOLYGIAD O GYHOEDDIADAU GAN ARCHWILIAD MEWNOL**

Siaradodd GE drwy'r adroddiad a gylchredwyd gyda'r pecyn agenda, gan dynnu sylw fod 7 archwiliad wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Derbyniodd 5 radd sicrwydd sylweddol. Derbyniodd 1 radd sicrwydd rhesymol. Derbyniodd 1 radd sicrwydd cyfyngedig – yr eiddo'n destun cost. Mae pob un gweithrediad ond un o'r archwiliad sicrwydd cyfyngedig wedi'u cwblhau. Felly mae ychydig o newid a gwelliannau'n digwydd fel canlyniad.

Mae chwe archwiliad drafft wedi'i derbyn. Mae un wedi'i raddio fel cyfyngedig – Rheoli Absenoldeb AD yn gysylltiedig ag Ystwythder. Adroddir ar hyn yng nghyfarfod nesaf y CA. Mae 8 archwiliad arall i fod i'w cwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Ychwanegodd HCa fod y Trwyddedu Drylliau Tanio a'r archwiliad cydweithredol ar Gyflogres bellach wedi'u cyhoeddi fel archwiliadau drafft. Bydd archwiliad Rheoli'r Trysorlys yn dechrau'r wythnos hon. Mae'r archwiliad Rheoli Newid TGCh wedi'i oedi oherwydd peth newid mewn staff. Cadarnhaodd HCa nad oedd achos i bryderu amdano os gohirir yr archwiliad Rheoli Newid TGCh i'r flwyddyn nesaf.

Nodwyd fod RB wedi gofyn am ddiweddariad ar eiddo wedi'i atafaelu yng nghyfarfod nesaf y CA, o ystyried yr archwiliad sicrwydd cyfyngedig blaenorol.

Ychwanegodd y CCA fod y cynllun ar gyfer yr archwiliadau cydweithredol ar gyfer y flwyddyn nesaf yn symud ymlaen. Byddant yn cael eu trafod yn Grŵp C&A Cymru ac o bosib mewn cyfarfod ar wahân yn cynnwys Cyfarwyddwyr Cyllid, Penaethiaid Cyllid ac Arweinwyr Archwiliadau'r Heddlu.

**342. ADOLYGIAD O ARGYMHELLION ODDI WRTH Y CYDBWYLLGOR ARCHWILIO**

Cyflwynodd y CCA y gweithrediadau agored yn berthnasol i lywodraethu o gyfarfodydd y CA i aelodau'r Bwrdd hwn eu gweld a rhoddodd ddiweddariadau lle mae'n briodol.

**343. DIWEDDARIAD SICRWYDD (DRWY EITHRIAD)**

Siaradodd SWJ drwy'r adroddiad a rannwyd o fewn y pecyn agenda yn egluro fod y prosesau amrywiol wedi'u gosod yn dda ac maent yn gweithio'n dda. Ychwanegodd un neu ddau o ddiweddariadau ers i'r adroddiad gael ei gylchredeg:

- Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer yr adolygiad annibynnol ar ein Proses Rheoli Risg gan yswirwyr yr Heddlu, sef Gallagher Bassett, wedi'i gymeradwyo.
- Cytunwyd ar ganllaw arfer system hysbysu Gov.uk yn y Bwrdd Sicrwydd ddoe. Bydd y Rheolwr Parhad Busnes bellach yn dechrau gweithio ar brofi'r system honno gydag UDRh dros y misoedd nesaf.

**344. DIWEDDARIAD HMICFRS (CYHOEDDI'R ADRODDIAD PEEL)**

Cyflwynodd Prif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol uchafbwyntiau o adroddiad PEEL HMICFRS a oedd yn berthnasol i'r cyfarfod hwn. Y prif faes a oedd yn berthnasol i'r fforwm hwn oedd 'Cynllunio strategol, rheoli sefydliadol a gwerth am arian' a dderbyniodd radd ddigonol. Roeddem wedi'n graddio'n wahanol o ran y maes hwn yn yr adroddiad drafft. Roedd gwahaniaethau sylweddol ynghylch rhai o'r meysydd i'w gwella. Roedd rhai yn rhai nad oeddem yn teimlo oedd yn ddilys. Uwchgyfeiriwyd y rhain at AEF. Cwblhawyd darnau o waith pellach sylweddol gyda thystiolaeth ychwanegol wedi'u rhoi a arweiniodd at ailraddio a newidiadau i'r meysydd gwella cysylltiedig. Ar y cyfan, gwnaethom dderbyn 11 maes i'w wella o'r adroddiad llawn. Y rhai sy'n berthnasol i'r fforwm hwn ydy:

> *AFI 10: - Mae'r heddlu angen deall ei allu'n well a sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'w gymunedau.*
>
> *AFI 11: - Mae'r heddlu angen gwella sut mae'n trosglwyddo ei gynlluniau ariannol a'r heriau mae'n wynebu wrth gyflawni ei wasanaethau.*

Rheolir gweithrediadau o ran yr AFIs hyn drwy'r Bwrdd Cynllunio a Dysgu Sefydliadol Strategol, a fydd yn adrodd i Fwrdd Cyflawniad y DBG a'r Bwrdd Gweithredol Strategol.

Mae'r Adolygiad Llywodraethu, a gyfeiriwyd ato ynghynt yn y cyfarfod, yn rhannol yn ymateb i rywfaint o'r adborth a dderbyniwyd gan HMICFRS drwy adran lywodraethu'r adroddiad PEEL.

Yr wythnos hon, mae HMICFRS wedi cyhoeddi'r dangosfyrddau gwerth am arian ar eu gwefan. Rydym yn gweithio drwy'r rheini er mwyn deall sut rydym yn cymharu o ran heddluoedd eraill. Mae manylion wedi'u rhannu gyda'r tîm optimeiddio fel rhan o'u hadolygiad.

Mae gwerth am arian yn cwmpasu economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Fodd bynnag, hysbysodd GE fod proffiliau Gwerth am Arian HMCIFRS ond yn cwmpasu economi, felly mae'n ddogfen syml. Maent yn ddefnyddiol er mwyn ein cyfeirio at le i edrych yn fwy manwl. Ond fe hysbysodd i beidio eu derbyn ar eu golwg gan fod gwallau wedi'u nodi mewn fersiynau blaenorol.

**345. ADOLYGIAD CYNLLUN GWAITH YMLAEN**

Cytunwyd fod y cynllun gwaith ymlaen yn parhau'n gyfredol. Fodd bynnag, nodwyd y dylai fod gan ddisgwyl unrhyw ganlyniadau o'r adolygiad llywodraethu, a ddisgwylir oddeutu mis Mehefin/Gorffennaf.

**GWEITHREDIAD: Yr ysgrifennydd i gysylltu gyda Phrif Uwcharolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol ar y canlyniadau o'r Adolygiad Llywodraethu, er mwyn eu cyflwyno i gyfarfod gosod agenda yn y dyfodol.**

**346. UNRHYW FATER ARALL**

Nid chodwyd mater arall.

**DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF:**

**Dydd Mercher 28 Mehefin 2023**
**Dydd Mercher 6 Medi 2023**
**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2023**